# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB, PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 37
HYDREF 2011

**‘Dewch i mewn i’w byrth â diolch, ac i’w gynteddau â mawl. Diolchwch iddo, bendithiwch ei enw’. (Salm 100:4)**

Wn i ddim sawl un ohonoch sy’n cofio’r stori am Ali Baba a’r deugain o ladron? Stori Arabaidd ddigon tywyll ei hanian o’r Oesoedd Canol ydyw’r stori hon yn wreiddiol ond erbyn hyn mae’n un o straeon mwyaf poblogaidd y byd. Efallai eich bod yn cofio i’r prif gymeriad Ali Baba, torrwr coed o ran ei alwedigaeth, a dyn a oedd yn ddigon tlawd, glywed y deugain lleidr un diwrnod yn cael mynediad i’r ogof lle’r oeddent yn cadw eu trysorau drudfawr drwy ddweud y geiriau cyfrin, “Agorwch Sesame”. Ac yna er mwyn cau drws yr ogof maent yn dweud y geiriau “Caewch Sesame”. Dyma’r cof cyntaf oll sydd gen i o unrhyw un yn defnyddio geiriau cyfrin fel hyn.

‘Slawer dydd wrth gwrs doedd defnyddio cyfrineiriau neu *passwords* ddim yn beth cyffredin i’w wneud ond erbyn heddiw yr ydym yn eu defnyddio yn feunyddiol a hynny yn arbennig yn y maes technolegol. Er enghraifft, os wyf am gael mynediad i’r cluniadur a’r taflunydd fe fydd yn rhaid teipio’r cyfrinair, y *password*, er mwyn cael eu defnyddio. A’r un fath yn union gyda’r we, yr e-bost a’r cyfrif banc. Yr un gair pwysig hwnnw sydd yn eich caniatáu i gael mynediad i’ch cyfrif. Ac os nad yw’r cyfrinair yn iawn neu os ydych wedi’i anghofio, chewch chi ddim mynediad. Mae mor syml â hynny. Dim cyfrinair - dim mynediad!

A ninnau nawr wedi cyrraedd tymor y diolchgarwch, ga’i awgrymu mai un o gyfrineiriau mwyaf gwerthfawr y ffydd Gristnogol yw’r gair ‘Diolch’. Dyma air sy’n rhoi mynediad i bresenoldeb ein Crëwr a’n Cynhaliwr oll. Yn y fersiwn Americanaidd o’r Beibl sy’n dwyn y teitl *The Message* gan Eugene Petersen, addaswyd yr adnod gyfarwydd o’r ganfed salm fel hyn: *Enter with the password ‘Thank you’. Make yourselves at home, talking praise. Thank him. Worship him.*

Ie, yn union fel y mae cyfrinair yn ein galluogi i agor rhyw gyfrif ar y we, y mae’r gair ‘diolch’ yn ein galluogi i gael mynediad i bresenoldeb Duw ac i fod yn gartrefol yn ei gwmni, i’w addoli ac i ddiolch iddo am ein holl fendithion. Yn hanes Ali Baba a’r deugain o ladron defnyddiwyd y geiriau cyfrin ‘Agorwch Sesame’ i gael mynediad i’r ogof lle’r oedd y trysorau drudfawr yn cael eu cadw. O ddefnyddio’r cyfrinair ‘diolch’ cawn ninnau fynediad i bresenoldeb Duw lle cawn brofi nid o drysorau materol y byd hwn ond o drysorau llawer gwell, sef trysorau gras ein Duw byw.

Bydded i bawb ohonom wneud defnydd helaeth o’r cyfrin air ‘diolch’ a derbyn o gyfoeth ei stôr.

Iesu, Iesu ‘rwyt ti’n ddigon,
‘rwyt ti’n llawer mwy na’r byd;
mwy trysorau sy’n dy enw
na thrysorau’r India i gyd:
oll yn gyfan
ddaeth i’m meddiant gyda’m Duw.

Pantycelyn

Pob bendith
Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW. Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com

CALENDR MIS HYDREF 2011

| | | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwraig y Mis<br>Mrs Mairwen Jones | Organydd y Mis<br>Mrs Mair Evans | |
| 2 Hydref<br>10.00 | Ymuno â Chynulleidfaoedd Bethel ac Eglwys Gymraeg San Paul ym Methel | |
| 9 Hydref<br>10.30 | Oedfa Deuluol : Gweinidog<br>Gweinyddir y Cymun | Bwrdd y Cymun:<br>Richard a Gwenan |
| 16 Hydref<br>10.00 yb a 6.00yh | Ymuno â Chyrddau Pregethu Bethel<br>Pregethwr Gwadd: Y Parchedig Olaf Davies, Bangor | |
| 23 Hydref<br>10.30 | Clwb Sul bach ac Oedfa Bregeth Gweinidog | |
| 30 Hydref<br>10.30 | Oedfa Bregeth<br>Y Parchg Peter M Thomas | |
| 6 Tachwedd<br>10.30 | Oedfa Gymun: Gweinidog | Bwrdd y Cymun<br>Mervyn a Sue |

**I'CH DYDDIADUR**

3 Hydref: Cinio Bara Caws yn Neuadd Gymunedol Waunfawr, 12.00-1.30.
5 Hydref: Oedfa Ddiolchgarwch Horeb yng nghwmni'r Parchedig Nan Powell-Davies, Yr Wyddgrug am 7yh
6 Hydref: Os MêTS: Swper y Cynhaeaf a Gweithdy: Festri Capel y Garn am 7yh
8 Hydref: Taith Gerdded Ann Griffiths o dan arweiniad Carys a Dilwyn Jones, Tal-y-bont ac yng nghwmni'r hanesydd lleol Alwyn Hughes. Byddwn yn cyfarfod yn Nolanog am 10.30yb.
12 Hydref : Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys: Horeb yn gyfrifol am weini.
19 Hydref : Cymdeithas Bethel yng nghwmni Mr Jim Griffiths, Clerc Cyngor Tref Aberystwyth am 2yp
20 Hydref : Os MêTS: Cynnal Cwrdd Diolchgarwch yng Nghartref Tregerddan.
26 Hydref: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
19 Hydref: Cymdeithas y Penrhyn: Eirug Salisbury yn trafod ei gerddi am 7.30yh
25 Hydref: Cwrdd Gweddi Misol yn Festri Horeb am 7.30yh
3 Tachwedd: Cyfarfodydd Hanner Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion ym Methel, Glan-y- Môr, Llanelli.
11 Rhagfyr: Oedfa Arbennig y Nadolig o dan ofal Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion yn y Morlan yng Nghwmni Dafydd Iwan am 2yp.

LLOFFION

Llongyfarchiadau i Elin Haf a Gethin ar enedigaeth eu mab, Twm Aron ar 13 Medi.
Dymuniadau gwresocaf i Mrs Lyn Evans, Deilyn sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty.
Croeso nôl i Mrs Mairwen Jones sydd yn dal i wella.

Gair y Dydd: Os oes rhywun yn dymuno archebu copi o 'Gair y Dydd' am 2012, cysylltwch â Ceris cyn dechrau Tachwedd. Cost am y flwyddyn yw £6

Rhaglen Cymanfa Ganu 2012: mae copïau ar gael gan Robert neu Ceris. Pris: £1.30